



AMSER I SIARAD

## Siarada â fi - Defnyddio swigod

Gwnewch swigod drwy ddefnyddio dŵr a hylif golchi llestri. Os nad oes gennych ffon swigod, gwnewch un o ddarn o weiren neu rywbeth tebyg (mae digon o fideos yn dangos sut i wneud hyn ar-lein).

- Mae chwarae gyda'ch plentyn yn cryfhau'r cysylltiad rhyngoch
- Mae chwythu swigod yn helpu i gryfhau'r cyhyrau yng ngheg eich plentyn y mae eu hangen ar gyfer datblygiad iaith
- Manteisiwch ar y cyfle i gyflwyno geiriau newydd ac ymadroddion byr: "Ie, llawer o swigod", "Swigod mawr", "Swigod yn yr awyr", "Pop", "Waw"